# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| **RHYBUDD O GYFARFOD** | | **NOTICE OF MEETING** |
|---|---|---|
| **CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)** | | **STANDING ADVISORY COUNCIL FOR RELIGIOUS EDUCATION (SACRE)** |
| **DYDD MERCHER, 18 EBRILL 2018<br>AM 2.00 O'R GLOCH** | | **WEDNESDAY, 18 APRIL 2018<br>AT 2.00 PM** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR<br>LLANGEFNI** | | **COMMITTEE ROOM 1<br>COUNCIL OFFICES<br>LLANGEFNI** |
| **Swyddog Pwyllgor** | **Shirley Cooke<br>01248 752514** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**

**Cynghorwyr / Councillors:-**

Glyn Haynes, Gwilym O Jones, Alun Mummery, Bryan Owen, Dylan Rees, Alun Roberts

**Yr Enwadau Crefyddol/Religious Denominations**

Anest Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Christopher Thomas (Yr Eglwys Babyddol/The Catholic Church), Parch/Rev Kate McClelland (Yr Eglwys Fethodistaidd/The Methodist Church), Mrs Einir Morris (Yr Eglwys Bresbyteraidd/ Presbyterian Church of Wales), Mrs Catherine Jones (Undeb y Bedyddwyr/The Baptist Union of Wales), Yr Athro/Professor Euros Wyn Jones (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg/Union of Welsh Independents)

**Athrawon/Teachers**

Mefys Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones), Alison Jones (Ysgol Cybi), Manon Morris Williams (Ysgol Gynradd Llangaffo), Heledd Hearn (Ysgol Uwchradd Bodedern)

**Aelodau Cyfetholedig/Co-Opted Members**

Mr Rheinallt Thomas

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION CYFARFOD HYDREF 10FED , 2017** (Tudalennau 1 - 12)

- Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft cyfarfod blaenorol y CYSAG a gynhaliwyd ar Hydref 10fed, 2017.

- I drafod unrhyw faterion sy'n codi o'r cofnodion.

3 **CRYNODEB Y CADEIRYDD AR ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYSAG MON 2016/17** (Tudalennau 13 - 14)

Cyflwyno Crynodeb y Cadeirydd ar Adroddiad Blynyddol drafft CYSAG Môn ar gyfer 2016/17.

4 **SAFONAU ADDYSG GREFYDDOL** (Tudalennau 15 - 28)

Cyflwyno gwybodaeth mewn perthynas â'r uchod:-

- Arolygiadau Ysgol
- Hunan Arfarniadau Ysgol

5 **CEFNOGAETH I'R DYFODOL**

Derbyn diweddariad mewn perthynas â'r uchod.

6 **CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU** (Tudalennau 29 - 30)

I ystyried gwelliant i Gyfansoddiad Cymdeithas CYSAGau Cymru.

7 **CANLLAW AR REOLI'R HAWL I DYNNU DISGYBLION YN OL O ADDYSG GREFYDDOL**

I'w rannu yn y cyfarfod.

8 **GOHEBIAETH**

I dderbyn unrhyw ohebiaeth.

9 **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Nodi dyddiad y cyfarfod nesaf o'r CYSAG, sef Mehefin 13eg, 2018.

# CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Hydref, 2017

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)<br><br>**Yr Awdurdod Addysg**<br><br>Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Gwilym O Jones, Alun Roberts<br><br>**Enwadau Crefyddol**<br><br>Mrs Anest Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru)<br>Yr Athro Euros Wyn Jones (Yr Annibynwyr Cymraeg)<br>Mrs Catherine Jones (Bedyddwyr Cymru)<br>Mr Christopher Thomas (Yr Eglwys Gatholig)<br><br>**Aelod Cyfetholedig**<br><br>Mr Rheinallt Thomas (Cyngor Ysgolion Sul) |
| **WRTH LAW:** | Mr D Gareth Jones (Swyddog Addysg) (Clerc y CYSAG)<br>Mrs Shirley Cooke (Swyddog Pwyllgor) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Mrs Mefys Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones)<br>Mrs Heledd Hearn (Ysgol Uwchradd Bodedern)<br>Mrs Manon Morris Williams (Ysgol Gynradd Llangaffo) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Miss Bethan James (Ymgynghorydd Cymorth Gwella GwE)<br>Mrs Rhian Hughes (Pennaeth –Ysgol Pencarnisiog) (ar gyfer Eitem 5) |

---

Croesawodd y Cadeirydd Mrs Anest Frazer i'w chyfarfod cyntaf o'r CYSAG. Bydd Mrs Frazer yn cynrychioli'r Eglwys yng Nghymru ar CYSAG Ynys Môn.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd cworwm yn y cyfarfod oherwydd absenoldeb aelod o'r sector addysgu. Trafododd y CYSAG a ddylai'r cyfarfod fwrw ymlaen heb gworwm, a chytunwyd i fwrw ymlaen ond gan nodi na fyddai gan y cyfarfod rym i wneud penderfyniadau, a hynny’n unol â Chyfansoddiad y CYSAG.

## 1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

## 2. COFNODION – 13 MEHEFIN, 2017

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y CYSAG a gynhaliwyd ar 13 Mehefin, 2017 ac fe'u cadarnhawyd fel rhai cywir, yn amodol ar y canlynol:-

Gofynnodd Mrs Catherine Jones am gywiriad i fersiwn Gymraeg y cofnodion, gan ei bod yn aelod o Eglwys y Bedyddwyr ac nid yr Eglwys Bresbyteraidd fel y nodwyd yn yr ymddiheuriadau.

## 3. MATERION YN CODI

Cadarnhaodd Mr Gareth Jones, y Swyddog Addysg:

**6** - Bydd cynrychiolydd o Ysgol David Hughes yn mynychu cyfarfod nesaf y CYSAG i rannu'r arfer da yn y maes llythrennedd mewn AG, fel y crybwyllwyd yn yr adroddiad Estyn.
**8 (1)** - Mae gwybodaeth am rôl a chyfrifoldeb y CYSAG wedi cael ei hanfon ymlaen at Aelodau newydd y CYSAG.
**8 (2)** - Diolchwyd i Benaethiaid am gefnogi athrawon Astudiaethau Crefyddol ac am neilltuo amser iddynt ddysgu'r cwrs AG newydd. Mae Mrs Mefys Edwards wedi mynegi ei gwerthfawrogiad o'r cymorth gan y CYSAG.
**8 (2)** - Mae gohebiaeth wedi'i hanfon at Ddeon Coleg Cenedlaethol Cymru yn cyfleu pryderon y CYSAG bod y niferoedd sy'n dilyn diwinyddiaeth mewn ysgolion a cholegau yn gostwng.
**8 (2)** - Mae cofnodion cyfarfod blaenorol y CYSAG wedi cael eu rhannu gyda'r Pennaeth Dysgu.
**8 (5)** - Mae'r ddolen deiseb mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd wedi'i hanfon ymlaen at aelodau'r CYSAG. Cafwyd diweddariad gan Mr Rheinallt Thomas, aelod cyfetholedig, ar y sefyllfa gyfredol o ran y ddeiseb, ac adroddodd bod Pwyllgor Deisebau'r Cynulliad wedi cyfarfod ar 3 Hydref, 2017 ac wedi gohirio gwneud penderfyniad ar y mater.

**Cynigiodd y Cadeirydd, a chytunodd y CYSAG, ei fod yn ysgrifennu at Mr Rhun ap Iorwerth, Aelod Cynulliad Cymru dros Ynys Môn, yn mynegi pryder y CYSAG am yr amser a gymerir gan y Pwyllgor Deisebau i wneud penderfyniad ar addoli ar y cyd.**

**Gweithredu:**

**Fel y nodwyd uchod.**

## 4. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG YNYS MÔN AM 2016/17

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol drafft CYSAG Ynys Môn ar gyfer 2016/17 i'r Awdurdod i'w ystyried. Diolchodd y Cadeirydd i Miss Bethan James, yr Ymgynghorydd Cymorth Gwella (GwE) am ei hymdrechion yn paratoi'r adroddiad. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn crynhoi gwaith y Pwyllgor hwn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Tynnodd yr Ymgynghorydd Cymorth sylw at y pwyntiau canlynol o'r adroddiad:

- Cyflwynwyd 11 o adroddiadau hunan-arfarnu yn ystod y flwyddyn, sy'n cyfateb i 21% o Ysgolion Môn ac sy’n gyson â'r nifer a gyflwynwyd yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae yna ysgolion sydd dal heb gyflwyno eu hadroddiadau hunan-arfarnu.
- Dywedodd bron pob ysgol fod eu safonau, eu darpariaeth a'r Addoli ar y Cyd yn dda. Roedd un ysgol wedi bod yn onest iawn a dweud bod ei safonau a'i darpariaeth yn ddigonol. Nodwyd bod pwyntiau gweithredu'r ysgol yn deg ac yn ddilys, ac roedd y CYSAG yn gwerthfawrogi parodrwydd yr ysgol i rannu ei chynlluniau gyda'r Pwyllgor.

Rhoddodd yr Ymgynghorydd Cymorth Gwella grynodeb o'r prif bwyntiau y mae pob ysgol neu grŵp o ysgolion wedi eu gwneud. Mae tueddiadau wedi dod i'r amlwg eleni oherwydd y defnydd o'r teclyn tracio. Nodwyd materion sydd angen sylw pellach yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

Bwriad yr athrawon oedd: -

- sicrhau bod disgyblion, erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn datblygu ac yn deall effaith crefydd ar gredinwyr;
- datblygu sgiliau rhesymu disgyblion wrth iddynt drafod cwestiynau crefyddol mawr;
- datblygu gallu disgyblion i ddadansoddi a dehongli haenau o ystyr.

Mewn perthynas â darparu AG mewn ysgolion, nododd y CYSAG arferion da, sy'n dangos natur y profiadau y mae plant yn eu cael yn yr ysgol. Maent yn cynnwys mynychu ymweliadau addysgol; canolbwyntio ar sgiliau holi a gwneud gwaith ffilmio. Dywedodd yr Ymgynghorydd Cymorth Gwella ei bod yn dda gweld plant ysgol uwchradd yn CA3 yn delio â chwestiynau mawr, sylfaenol.

Nododd CYSAG fod pob ysgol yn cydnabod eu bod yn deall natur Addoli ar y Cyd ac yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.

Yn y crynodeb o argymhellion yr Ymgynghorydd Cymorth Gwella ar gyfer y Cyngor, rhoddwyd pwyslais arbennig ar annog yr Awdurdod i helpu cydlynwyr i wella canlyniadau AG mewn ysgolion, a chael mynediad at arweiniad ac arferion da.

Gan gyfeirio at ganlyniadau arholiadau allanol, argymhellwyd bod athrawon ysgol uwchradd yn parhau i weithio gyda'i gilydd. Mae dwy athrawes yn Ynys Môn, sef Mrs Mefys Edwards a Mrs Angharad Derham o Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch yn Ymarferwyr Arweiniol ar draws y Gogledd, ac wedi gwneud gwaith ardderchog yn cydlynu athrawon yn Ynys Môn a Gwynedd yn benodol i weithio gyda'i gilydd i baratoi ar gyfer y maes llafur TGAU newydd .

Dywedwyd mai ychydig iawn o wybodaeth sy'n ymwneud ag AG yn yr Adroddiadau Arolygu gan Estyn. Dim ond pedwar adroddiad Estyn a gyflwynwyd eleni, tri yn y sector cynradd ac un yn y sector uwchradd.

Cyflwynwyd Cynllun Gweithredu'r CYSAG i'w ystyried a chyfeiriwyd yn benodol at gyflawniad y CYSAG yn erbyn y blaenoriaethau a'r canlyniadau o fewn y Cynllun Gweithredu. Cytunodd aelodau'r CYSAG fod Adran Addysg Ynys Môn wedi gwneud cynnydd da mewn ymateb i flaenoriaethau Cynllun Gweithredu 2015-17. Fodd bynnag, nid yw'r CYSAG wedi bod yn rhagweithiol iawn yn gyrru'r rhaglen ymlaen mewn perthynas â mynychu sesiynau Addoli ar y Cyd mewn ysgolion. Felly, cynigiwyd a chytunwyd y dylid gwneud trefniadau i bedwar aelod o'r CYSAG ymweld ag ysgolion mewn gwahanol ddalgylchoedd i arsylwi Addoli ar y Cyd ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

**Gweithredu:**

**Y Swyddog Addysg i dargedu ysgolion mewn gwahanol ddalgylchoedd ac ysgrifennu at Benaethiaid yn gofyn bod aelodau'r CYSAG yn cael cyfle i fynychu sesiynau Addoli ar y Cyd yn eu hysgolion.**

**TGAU Astudiaethau Crefyddol (diweddariad wedi'i rannu gan yr Ymgynghorydd Cymorth Gwella ar ran Mrs Mefys Edwards)**

Ers mis Medi, cyhoeddwyd adnoddau dwyieithog ar wefan GwE i ategu'r maes llafur TGAU newydd ar gyfer Astudiaethau Crefyddol. Mae athrawon AG yng Ngwynedd ac Ynys Môn wedi gweithio'n galed iawn ar y prosiect, a rhaid canmol eu hymdrechion. Mae'r athrawon yn bwriadu parhau â'u gwaith y flwyddyn nesaf a chynhyrchu deunydd sy'n mynd law yn llaw â'r cwrs, ac yn gobeithio darparu canllawiau i blant ar sut i ateb cwestiynau arholiad. Roedd Mrs Mefys Edwards wedi mynegi pryder nad yw'r gwerslyfrau sydd ar gael gyda'r cyrsiau TGAU a Lefel A newydd wedi eu cyhoeddi yn y Saesneg hyd yma, gyda'r fersiynau Cymraeg i ddilyn.

Roedd y CYSAG yn falch gyda'r canlyniadau wrth gefnogi athrawon uwchradd i baratoi a chyflwyno'r maes llafur TGAU newydd.

**Cynllun Gweithredu CYSAG Ynys Môn**

Argymhellodd yr Ymgynghorydd Cymorth Gwella bod y CYSAG yn cadw ei flaenoriaethau am gyfnod o flwyddyn i wella arweinyddiaeth AG, yn enwedig i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd wrth i ysgolion yng Nghymru ymateb i argymhellion a wnaed gan yr Athro Graham Donaldson yn ei adroddiad, 'Dyfodol Llwyddiannus'.

Cyfeiriodd Mr Rheinallt Thomas, yr aelod cyfetholedig, at y modd y mae'r cwricwlwm AG yn datblygu ar hyn o bryd, a sut mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweld AG yn berthnasol i faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Nodwyd y bydd grŵp o gynrychiolwyr o ysgolion arloesol yn amlinellu egwyddorion y maes Dyniaethau yn y Cwricwlwm Dysgu a Phrofiad i ysgolion.

Rhoddodd yr Ymgynghorydd Cymorth Gwella ddiweddariad ar y Maes Llafur Cytûn ar gyfer AG. Nodwyd bod gan CYSAG Ynys Môn a Llywodraeth Cymru berthynas dda wrth drafod materion y Dyniaethau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu arbenigwyr allanol i baratoi papurau ar bob pwnc. Comisiynwyd Ms Barbara Wintersgill i ddarparu papur ar AG, yn arbennig syniadau mawr AG. Ei themâu yw: parhad, newid ac amrywiaeth; geiriau a thu hwnt; bywyd da; gwneud synnwyr o brofiadau bywyd; dylanwadu ar y gymuned, diwylliant a grym, a'r darlun mawr.

Comisiynwyd Cymdeithas CYSAGau Cymru hefyd i gynhyrchu papur cynghori ar gyfer Grŵp Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Mae'r egwyddorion yn cyfeirio at y tri mater pwysig canlynol yn AG: -

- ymwybyddiaeth o brofiadau bywyd a'r cwestiynau sy'n codi ohonynt;
- addysgu credoau ac arferion;
- archwilio ac ymateb personol.

Mae dogfen Cymdeithas CYSAGau Cymru yn cyfeirio at gyfraniad AG i sgiliau, fel llythrennedd, rhifedd a TGCh, ac mae'n cynnwys awgrymiadau ar y profiadau AG y gallai plant eu cael i’w cyfoethogi ar wahanol adegau yn yr ysgol.

Awgrymwyd y dylid cynnal cyfarfod busnes neu weithdy yn lle un cyfarfod CYSAG yn y flwyddyn academaidd hon er mwyn paratoi athrawon ac aelodau’r CYSAG am faes llafur diwygiedig sydd wedi’i gytuno’n lleol, a gofynnwyd am farn y CYSAG ar y cynnig. Gan mai dim ond unwaith y tymor mae’r CYSAG yn cyfarfod, teimlai'r aelodau nad oeddent eisiau colli cyfarfod, ac felly, cynigiodd gynnal gweithdy yn y bore a chyfarfod fel Pwyllgor yn y prynhawn.

Croesawodd aelodau'r CYSAG y syniad o weithdy fel ffordd o symud ymlaen a rhannu'r gwaith da a wnaed yn ysgolion Ynys Môn. Byddai athrawon yn cael eu

gwahodd i'r gweithdy i drafod eu sylwadau a'u gwaith. Y consensws oedd y dylai'r CYSAG fabwysiadu dull gweithdy, i ddechrau yn y gwanwyn / haf 2018.

Cynigiodd y Cadeirydd y dylid llunio Cynllun Gweithredu newydd ar gyfer y cyfarfod nesaf i fynd i'r afael ag unrhyw argymhellion ychwanegol, a chytunodd y CYSAG i'r cynnig.

**Gweithredu:**

- **Y Swyddog Addysg i: -**
  - **ysgrifennu at athrawon AG yn ysgolion Ynys Môn i ddiolch iddynt am eu cyfraniad wrth baratoi a chyflwyno'r maes llafur TGAU newydd; ac,**
  - **ysgrifennu at Mrs Mefys Edwards yn diolch iddi am ei chyflwyniad ardderchog yng nghyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru.**

- **Bod yr Ymgynghorydd Cymorth GwE yn paratoi Cynllun Gweithredu newydd ar gyfer cyfarfod nesaf y CYSAG.**

- **Bod yr Ymgynghorydd Cymorth GwE yn trefnu gweithdy i'r CYSAG yng ngwanwyn / haf 2018.**

**Cytunwyd i dderbyn Adroddiad Blynyddol drafft CYSAG Ynys Môn ar gyfer 2016/17 yn amodol ar yr uchod.**

## 5. SAFONAU ADDYSG GREFYDDOL

**Asesiadau Athrawon** CA3 – heb eu trafod.
**Canlyniadau Arholiadau Allanol** – heb eu trafod.

**Arolygon Ysgolion**

Cyflwynwyd gwybodaeth o adroddiadau Arolygu Estyn a gynhaliwyd yn Ysgol Gynradd Dwyran, Ysgol Gynradd Henblas, Ysgol Gynradd Pencarnisiog ac Ysgol Uwchradd Caergybi ar gyfer ystyriaeth y CYSAG.

Croesawodd y Cadeirydd Mrs Rhian Hughes, Pennaeth Ysgol Pencarnisiog i'r cyfarfod.

Adroddodd y Pennaeth fod arolwg Estyn llawn wedi'i gynnal yn Ysgol Pencarnisiog ym mis Chwefror, 2016, yn dilyn cyfnod o ansefydlogrwydd yn arweinyddiaeth yr ysgol.

Nodwyd bod adroddiad Estyn wedi gwneud pum argymhelliad, y bu'n rhaid i'r ysgol ymateb iddynt o fewn deuddeng mis. Roedd argymhelliad 3 yn adroddiad Estyn yn dweud y dylai'r ysgol:

*"Sicrhau bod cynlluniau gwaith yn ymateb yn llawn i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur ar gyfer Addysg Grefyddol* ."

Dywedodd y Pennaeth wrth y CYSAG fod Estyn wedi dychwelyd i'r ysgol ar ôl deuddeng mis i fonitro cynnydd yn erbyn yr argymhellion.

Yn ystod yr arolwg Estyn, bu'r Pennaeth yn gweithio'n agos iawn gyda'r Ymgynghorydd Cymorth Ysgolion a'r Ymgynghorydd Cymorth GwE sy'n gwasanaethu CYSAG Ynys Môn, a wnaeth yn siŵr bod yr ysgol yn ymateb i argymhellion Estyn. Sefydlwyd Cynllun Gweithredu ôl-arolwg yn yr ysgol, a chydweithiodd staff a mapiwyd trosolwg cyffredinol ar gyfer AG, gan sicrhau bod eu cynlluniau ar draws yr ysgol yn bodloni'r gofynion AG. Defnyddiodd yr ysgol ganllawiau AG Llywodraeth y Cynulliad yn y Cyfnod Sylfaen a CA2 ar gyfer cynllunio ymlaen, a defnyddiwyd adnoddau a oedd ar gael ar wefan Cynnal.

Rhoddwyd cyflwyniad manwl gan y Pennaeth ar y camau a gymerwyd gan Ysgol Pencarnisiog i fodloni gofynion Estyn. Nodwyd bod gwaith i wella safonau yn yr ysgol yn parhau, ond mae’r ysgol wedi'i thynnu oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen i Estyn eu monitro. Diolchodd y Pennaeth i'r Ymgynghorwyr GwE am eu cymorth a'u cyfarwyddyd ardderchog yn ystod yr amser anodd hwn.

Llongyfarchodd y CYSAG y Pennaeth am y gwaith da a'r cynnydd a wnaed yn yr ysgol, a diolchodd iddi am ei chyflwyniad heddiw.

Dywedodd y Cynghorydd Gwilym O Jones ei fod wedi mynychu sesiwn addoli ar y cyd yn yr ysgol, ac roedd y plant yn ymateb yn dda yn ystod y drafodaeth ac yn cael eu gwobrwyo am eu hymdrech.

**Ysgol Gynradd Dwyran**

Dywedodd y Swyddog Addysg fod gan Ysgol Gynradd Dwyran gynlluniau gwaith priodol sy'n ymateb i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Maes Llafur Cytûn ar gyfer AG. Nodwyd bod gwersi yn cael eu cynllunio yn y tymor byr, y tymor canol a’r tymor hir a bod yr addysgu yn yr ysgol wedi'i strwythuro.

Mae gweithgareddau allgyrsiol ar gael i ddisgyblion, ac mae'r ysgol yn meithrin datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol a chymdeithasol y disgyblion yn llwyddiannus, ac yn myfyrio ar bynciau megis Syria. Nodwyd o adroddiad Estyn bod safon yr addysgu yn yr ysgol yn dderbyniol iawn.

**Ysgol Henblas**

Adroddodd y Swyddog Addysg fod Ysgol Henblas yn bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac AG. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol, cymdeithasol ac ysbrydol disgyblion yn effeithiol, ac mae sesiynau Addoli ar y Cyd yn atgyfnerthu'r gwerthoedd hyn.

Nodwyd bod Estyn wedi gosod Ysgol Henblas yn y categori 'gwelliannau sylweddol', a bydd yn dychwelyd o fewn deuddeng mis i fonitro cynnydd yr ysgol.

**Ysgol Uwchradd Caergybi**

Adroddodd y Swyddog Addysg fod Ysgol Uwchradd Caergybi yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys. Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol y disgyblion.

Nododd y Cadeirydd fod gwaith Gobaith Môn yn cael ei gydnabod yn adroddiad Estyn, er nad oedd y sefydliad ei hun wedi'i enwi. Mae Adran 11 o adroddiad Estyn yn nodi: -

*"Mae'r ysgol yn gweithio'n dda mewn partneriaeth â rhaglen ymgysylltu ieuenctid sy'n canolbwyntio ar adeiladu gwaith tîm a sgiliau arwain. Mae hyn wedi helpu i wella lles a chyrhaeddiad disgyblion ".*

Atgoffodd y Cadeirydd y CYSAG o gyflwyniad Mr Joe Morino ar ran Gobaith Môn yng nghyfarfod diwethaf y CYSAG, a chyfeiriodd at y ganmoliaeth a gafodd Gobaith Môn gan y Pennaeth.

**Cytunwyd i nodi'r wybodaeth.**

**Adroddiadau Hunan-arfarnu Ysgolion**

Nid yw'r CYSAG wedi derbyn unrhyw adroddiadau hunan-arfarnu ers ei gyfarfod diwethaf. Roedd yr Aelodau'n pryderu nad yw ysgolion yn ymateb, a thrafodwyd ffyrdd o gael ysgolion i gydweithredu a chyflwyno eu hadroddiadau hunan-arfarnu. Awgrymwyd y dylid enwi'r ysgolion nad oeddent wedi cymryd rhan a chytunodd y CYSAG y dylid gwneud hynny.

**Gweithredu:**

**Bod y Swyddog Addysg yn ysgrifennu at yr ysgolion yn gofyn iddynt baratoi adroddiad hunan-arfarnu erbyn cyfarfod nesaf y CYSAG. Byddai ysgolion sy'n cydymffurfio / ddim yn cydymffurfio yn cael eu henwi.**

**6. ADOLYGIAD THEMATIG ESTYN**

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn holiadur 'Cwestiynau i Gadeiryddion' gan Estyn ac fe'i rhannodd gyda'r CYSAG. Gofynnwyd i aelodau'r Pwyllgor am eu sylwadau mewn ymateb i'r cwestiynau. Dywedodd yr Ymgynghorydd Cymorth fod Estyn bellach yn cynnal adolygiadau thematig mewn ysgolion. Pwnc adolygiad y llynedd oedd y Dyniaethau h.y. Hanes a Daearyddiaeth. Mae'r canlyniadau wedi'u cyhoeddi ar wefan Estyn. Roedd canlyniadau'r arolygon yn galonogol yn y sector cynradd a'r sector uwchradd fel ei gilydd, ac fe gyflwynwyd argymhellion i ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.

Eleni, bydd Estyn yn cynnal adolygiad thematig ar AG, a bydd yn ymweld ag ysgolion ledled Cymru yn ogystal â chynnal cyfweliadau dros y ffôn a choladu gwybodaeth a gasglwyd gan arolygwyr yn ystod eu hymweliadau arolygu ag ysgolion. Yr unig ysgol ym Môn yr ymwelir â hi fydd Ysgol Parc y Bont.

Croesawodd y Cadeirydd y sylwadau a wnaed gan aelodau'r CYSAG mewn ymateb i'r holiadur. **Awgrymwyd bod y Cadeirydd, yr Ymgynghorydd Cymorth a'r Swyddog Addysg yn gweithio gyda'i gilydd ar ymateb sy'n cynnwys sylwadau'r CYSAG. Cynigiwyd anfon ymateb drafft at yr Aelodau i'w gymeradwyo, ac i gynnwys unrhyw sylwadau pellach gan y CYSAG, cyn i'r fersiwn derfynol gael ei hanfon ymlaen at Estyn erbyn y dyddiad cau, sef 27 Hydref, 2017.**

Dywedodd yr Ymgynghorydd Cymorth ei bod hi wedi derbyn copi o'r cwestiynau y bydd Estyn yn eu gofyn i ysgolion yn ystod yr adolygiad thematig. **Awgrymodd y dylid cynnwys rhai o'r cwestiynau yn y templed a fydd yn cael ei anfon at ysgolion i baratoi adroddiadau hunan-arfarnu.**

**PENDERFYNWYD bod y CYSAG yn cytuno i'r uchod.**

**Gweithredu:**

- **Anfon sylwadau'r CYSAG at y Swyddog Addysg.**
- **Bod y Swyddog Addysg yn anfon ymateb drafft at aelodau'r CYSAG ar ran y Cadeirydd am sylwadau pellach ac i'w gymeradwyo.**
- **Bod y Swyddog Addysg yn anfon fersiwn derfynol o ymateb y CYSAG i Estyn erbyn 27 Hydref, 2017.**
- **Bod yr Ymgynghorydd Cymorth yn cynnwys cwestiynau o'r holiadur yn y templed ar gyfer adroddiadau hunan-arfarnu'r ysgolion.**

**7. DIWEDDARIAD LLAFAR AR ASTUDIAETHAU CREFYDDOL –** Trafodwyd yr eitem hon dan eitem 4 ar y rhaglen.

## 8. DIWEDDARIAD GAN YMGYNGHORYDD CYMORTH GWELLA GwE

Atgoffodd yr Ymgynghorydd Cymorth y CYSAG fod cylchgrawn cyfrwng Cymraeg AG CA3 ar gael ar wefan HWB. Enw’r pedwerydd rhifyn a gyhoeddwyd yn ddiweddar yw 'Yr Amgylchedd'.

## 9. CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU

Nododd y Pwyllgor gofnodion drafft cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd yn Wrecsam ar 7 Gorffennaf, 2017. Dywedodd y Cadeirydd ei fod hefyd yn bresennol yn y cyfarfod, ond nid oedd ei bresenoldeb wedi ei gofnodi.

Amlygodd Mr Rheinallt Thomas, yr aelod cyfetholedig, y prif bwyntiau a drafodwyd yng nghyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a mynegodd bryder ynghylch y protocol ar gyfer anfon cofnodion cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru. Roedd wedi atgoffa aelodau Cymdeithas CYSAGau Cymru y byddai'r cofnodion wedi cyrraedd cyn pen pythefnos i'r cyfarfod yn y gorffennol, ond mae'r broses gyfredol yn cymryd llawer mwy o amser, er bod rhai CYSAGau angen cael mynediad i’r cofnodion yn gynharach, cyn cyfarfodydd y CYSAG. Nodwyd bod y cofnodion yn cael eu hanfon yn Saesneg i ddechrau, gyda'r cyfieithiad Cymraeg i ddilyn. Cydnabuwyd y dylid trin y ddwy iaith yn gyfartal pan gylchredir y cofnodion. Adroddodd Mr Thomas nad oedd y ddau bwynt gweithredu wedi eu rhoi ar waith hyd yma, gan nad yw fersiwn Gymraeg y cofnodion wedi dod i law.

Cyfeiriodd Mr Thomas at gyflwyniadau ardderchog Mrs Mefys Edwards ar gynnydd Ymarferwyr Arweiniol yng ngogledd Cymru, a'u gwaith yn darparu cymorth i ysgolion sy'n cyflwyno'r fanyleb TGAU newydd. Llongyfarchwyd Mrs Edwards gan Mr Thomas ac aelodau eraill o Gymdeithas CYSAGau Cymru am ei chyflwyniad effeithiol iawn yn y cyfarfod.

Nodwyd y cynhelir cyfarfod nesaf Cymdeithas CYSAGau Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar 10 Tachwedd, 2017.

## 10. GOHEBIAETH

Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth.

## 11. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Mae dyddiad cyfarfod nesaf y CYSAG wedi'i aildrefnu i ddydd Mawrth, 6 Mawrth 2018, oherwydd nad oedd rhai aelodau o’r CYSAG ar gael ym mis Chwefror.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.00 pm

**Y CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

**CRYNODEB Y CADEIRYDD**

Braint i mi unwaith eto, fel Cadeirydd CYSAG Ynys Môn, yw cael cyflwyno Adroddiad Blynyddol 2016/17. Yn ystod y deuddeng mis diwethaf gwelwyd rhai newidiadau yn y Pwyllgor ac rwy'n falch o groesawu aelodau'r newydd canlynol – y Cynghorwyr Glyn Haynes, Bryan Owen ac Alun Roberts o Gyngor Sir Ynys Môn, ynghyd â Ms Anest Frazer sy'n cynrychioli'r Eglwys yng Nghymru. 'Rwyf hefyd yn falch o ddweud ein bod wedi gallu cadw mewnbwn amhrisiadwy Mr Rheinallt Thomas, un o'n haelodau mwyaf profiadol, sy'n parhau i wasanaethu ar y Pwyllgor fel cynrychiolydd y Cyngor Ysgolion Sul.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i wneud cynnydd yn y meysydd allweddol a ganlyn:

a) Derbyn a dadansoddi adroddiadau hunanarfarnu'r ysgolion. Cyflwynwyd cyfanswm o 11 o adroddiadau yn ystod 2016-17.
b) Monitro addoli ar y cyd o fewn yr ysgolion. Mae aelodau'r pwyllgor yn parhau i ymweld ag ysgolion i weld natur yr addoli drostynt eu hunain ac, yn aml, maent yn adrodd yn ôl eu bod wedi eu hysbrydoli gan yr hyn a welsant.
c) Nodi arfer da trwy dderbyn cyflwyniadau yn ein cyfarfodydd gan ysgolion a ddewiswyd ac y gellir eu rhannu wedyn.

Fel sy'n arferol, mae nifer o argymhellion allweddol yn yr Adroddiad. Caiff yr holl argymhellion hyn eu cynnwys wedyn yn ein Cynllun Gweithredu parhaus a fydd yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu hynny. Ar hyn o bryd mae'r Cynllun Gweithredu yn canolbwyntio ar bedair blaenoriaeth, sef:

1: Datblygu arweinyddiaeth dda mewn addysg grefyddol ac addoli ar y cyd;
2: 'Dyfodol Llwyddiannus': Argymhellion Donaldson ac Addysg Grefyddol;
3: Cefnogi athrawon uwchradd wrth iddynt baratoi a chyflwyno'r maes llafur TGAU newydd ar gyfer Astudiaethau Crefyddol;
4: Hyrwyddo addoli ar y cyd o ansawdd da.

Bydd angen adolygu'r blaenoriaethau uchod ymhen tua 12 mis i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd wrth i ysgolion yng Nghymru ymateb i argymhellion a wnaed gan yr Athro Graham Donaldson yn ei adroddiad "Dyfodol Llwyddiannus". Yn sicr, bydd newidiadau mawr yn y cwricwlwm a bydd rôl Cymdeithas CYSAGau Cymru (y corff cenedlaethol) yn hanfodol wrth ddarparu mewnbwn i Lywodraeth Cymru ar unrhyw newidiadau arfaethedig. Wedi mynychu fy nghyfarfod cyntaf o Gymdeithas CYSAGau Cymru, rwy'n hyderus y bydd y pwyllgor hwn, yn ddi-os, yn llais cryf i sicrhau nad yw pwysigrwydd addysg grefyddol yn cael ei ddibrisio.

Yn olaf, hoffwn eto gynnig fy niolchgarwch diffuant i'm cyd-aelodau am eu hymroddiad trwy gydol y flwyddyn ac i'r swyddogion ymroddgar y mae eu cymorth mor hollbwysig. Diolch yn arbennig unwaith eto i Miss Bethan James, yr Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant ar gyfer GwE

(Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion) y mae ei chyfraniad a'i harweiniad mor hanfodol i'n llwyddiant.

**Y CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD CYSAG MÔN**

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**Adroddiadau Estyn Reports**

A. **HYDREF 2017 AUTUMN**

**Ysgol Penysarn.**

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**
Mae'r ysgol yn gymuned gartrefol, ddiogel a hapus. Rhoddir pwyslais ar gydnabod a pharchu amrywiaeth unigolion a chaiff pob disgybl hawl gyfartal. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda. Mae'r sesiynau cydaddoli yn cefnogi datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn effeithiol a rhoddir cyfleoedd priodol iddynt fyfyrio ar faterion perthnasol. Mae cyfraniad aelod o'r corff llywodraethol trwy weithgareddau Agor y Llyfr yn cryfhau'r ddarpariaeth yn llwyddiannus. Golyga hyn fod y disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch tuag at eraill. Fe amlygir hyn yn glir yn y ffordd mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymdrin â'i gilydd.

***Care, support and guidance: Good***
*The school is a homely, safe and happy community. Emphasis is placed on recognising and respecting individuals' diversity and all pupils have equal rights. Provision for pupils' spiritual, moral, social and cultural development is good. Collective worship sessions support children's spiritual and moral development effectively, and they are given appropriate opportunities to reflect on relevant issues. The contribution of a member of the governing body through Open the Book activities strengthens provision successfully. This means that pupils develop a sound understanding of values such as honesty, fairness and respect towards others. This is highlighted clearly in the way in which most pupils treat each other.*

**Ysgol y Fali.**

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**
Mae gan yr ysgol strategaethau pwrpasol i gefnogi anghenion emosiynol a chymdeithasol y disgyblion. Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda gyda nifer o wasanaethau ac asiantaethau allanol. Mae'r gweithdrefnau hyn yn effeithiol ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau, cyrhaeddiad a lles disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at yr ethos gofalgar a chynhwysol sy'n bodoli yn yr ysgol.

Mae parchu aml-ddiwylliannau, hybu agweddau ar amrywiaeth, gwrth-hiliaeth a datblygu tegwch a chyfle cyfartal yn rhan naturiol o waith yr ysgol. Mae pwyslais amlwg ar hybu gwerthoedd cytûn yr ysgol, ac mae hyn yn cael dylanwad positif ar ymddygiad disgyblion.

***Care, support and guidance: Good***
*The school has purposeful strategies to support pupils' emotional and social needs. The school works well with a number of external services and agencies. These procedures*

*are effective and have a positive effect on pupils' standards, attainment and wellbeing. This contributes successfully to the caring and inclusive ethos within the school.*

*Respecting multiculturalism, promoting aspects of diversity, anti-racism and developing fairness and equal opportunities are a natural part of the school's work. There is a clear emphasis on promoting the school's agreed values, and this has a positive influence on pupils' behaviour.*

**Ysgol Brynsiencyn**

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol ac angen gwella**
Mae parchu aml-ddiwylliannau, hybu agweddau ar amrywiaeth, gwrth-hiliaeth a datblygu tegwch a chyfle cyfartal yn elfennau cadarn o ddiwylliant yr ysgol. Mae pwyslais amlwg ar ofalu am ei gilydd, ac mae hyn yn cael dylanwad positif ar ymddygiad disgyblion.

***Care, support and guidance: Adequate and needs improvement***
*Respecting multiculturalism, promoting aspects of diversity, anti-racism and developing fairness and equal opportunities are sound elements of the school's culture. There is a prominent emphasis on caring for each other, and this has a positive influence on pupils' behaviour.*

## B. GWANWYN 2018 SPRING

**Ysgol Llanbedrgoch**

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**
Mae ymddygiad bron bob disgybl wrth symud o amgylch yr ysgol yn ystod cyfnodau hamdden, gwasanaethau boreol ac mewn gwersi yn ardderchog. Maent yn gwrtais iawn wrth gyfarch ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Maent yn groesawgar, yn foesgar ac yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda pharch.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**
Mae sesiynau cyd-addoli o safon uchel, ac yn aml yn seiliedig ar straeon o'r Beibl neu themâu moesol, a chaiff y disgyblion gyfleoedd buddiol i ganolbwyntio ar agweddau fel 'bod yn amyneddgar'. Mae'r pwyslais ar ddatblygu gwerthoedd yn amlwg ym mywyd yr ysgol.

***Wellbeing and attitudes to learning: Good***
*Nearly all pupils' behaviour while moving around the school during leisure time, morning assemblies and in lessons is excellent. They are very polite when greeting each other, staff and visitors. They are welcoming, polite and treat adults and visitors with respect*.

***Care, support and guidance: Good***
*Collective worship sessions are of a high standard and are often based on stories from the Bible or moral themes, and pupils are given beneficial opportunities to concentrate on aspects such as 'being patient'. The emphasis on developing values is prominent in the school's life.*

**Ysgol Santes Gwenfaen, Rhoscolyn**

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**
Mae'r ysgol yn hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi, parch, ac ymroddiad yn llwyddiannus iawn. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymddwyn yn ardderchog, yn

dangos parch tuag at ei gilydd ac ymwelwyr, ac yn ymateb yn gydwybodol i'w gweithgareddau.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y disgyblion yn effeithiol ac mae'r ymweliadau â'r gymuned leol yn cyfoethogi hyn ymhellach.

***Care, support and guidance: Good***
*The school promotes the importance of good behaviour, courtesy, respect and dedication very successfully. As a result, pupils behave excellently, treat each other and visitors with respect, and respond conscientiously to their activities.*

*The school promotes pupils' spiritual, moral and social development effectively, and visits to the local community enrich this further.*

**Ysgol Rhosybol.**

Arolygwyd yr ysgol 12 Mawrth, 2018, a chyhoeddir yr adroddiad ar 17 Mai.

*The school was inspected 12 March, 2018, and the report will be published 17 May.*

This page is intentionally left blank

Rhesymeg

Rheolir Addysg Grefyddol yn lleol gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae'n cynnwys tri phwyllgor: cynrychiolwyr prif draddodiadau crefyddol yr ardal, cynrychiolwyr athrawon a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a)

Cred CYSAG Môn y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan obeithio y bydd y canllawiau sy'n dilyn yn galluogi penaethiaid i gefnogi CYSAG yn ei dyletswyddau.

Yn y gorffennol, mae CYSAG Môn wedi monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- adolygu adroddiadau arolygu ESTYN;
- dadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- cael adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ysgolion/ymgynghorol lleol;
- gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu enghreifftiau o arferion da gydag aelodau CYSAG.

Ni fydd Fframwaith Arolygu newydd ESTYN bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae CYSAG Môn felly yn awyddus i fanteisio ar y cyfundrefnau a'r arferion a ddefnyddir ar hyn o bryd gan benaethiaid ac athrawon wrth iddynt baratoi at y Fframwaith Arolygu newydd. Yng nghyfarfod CYSAG Môn ar Chwefror 14eg 2011, penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau.

Gofynnir yn garedig i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Môn yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol.

**Manylion cyswllt:**

**Enw (Clerc CYSAG): Gareth Jones**

**Cyfeiriad: Adran Dysgu Gydol Oes, Adeilad y Cyngor, Llangefni.**

Ers 2008, mae CYSAGau ar draws Cymru wedi mabwysiadu neu addasu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (APADGOS, 2008) fel eu maes llafur cytûn lleol. Mae aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol wedi croesawu'r cysondeb hwn ar draws Cymru gan eu bod wedi gallu cydweithio i baratoi canllawiau cyffredin i ysgolion a ChYSAGau. Mae amryw o GYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu cyfundrefn neu broses debyg i'r un a amlinellir yn y ddogfen hon.

Enw'r Ysgol: YSGOL Corn Hir, Llangefni

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

| **Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?** |
|---|
| • Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.<br>• Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad. |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Cwricwlwm |

Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu

**<u>Y CYFNOD SYLFAEN</u>**
Mae gallu'r disgyblion i drafod a galw i gof yn datblygu yn dda ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen ac erbyn brig y Cyfnod Sylfaen mae bron pob un yn gallu trafod a gofyn cwestiynau.
Gall bron pob un siarad am eu teimladau eu gweithrediadau a'u barnau erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen ac y mae tua hanner yn disgrifio a chynnig sylwadau syml ar safbwyntiau pobl eraill.
Datblygir gallu y plant i ddefnyddio geirfa grefyddol syml ar draws y Cyfnod Sylfaen yn dda.

**<u>CYFNOD ALLWEDDOL 2</u>**
Yng ngwaelod Cyfnod Allweddol 2 (blynyddoedd 3 & 4) mae pob disgybl yn siarad ac yn gofyn cwesitynau am brofiadau ei hun, y byd o'i gwmpas ac agweddau ar grefydd. Mae born pawb yn trafod cwestiynau sydd yn codi o'i brofiad ei hun, y byd o'i gwmpas ac agweddau ar grefydd gan gynnig ei barn eu hun yn syml. Mae isafswm o'r disgyblion yn dechrau trafod ei ymatebion i gwesitynau am fywyd o'i gwmpas a chrefydd.

Gwelir bod mwyafrif o ddisgyblon yn gallu disgrifio rhai credoau, dysgeidiaethau ac ymarferion crefyddol sylfaenol a ymchwilir iddo. Mae dros hanner y disgyblion yn gallu disgrifio sut mae rhai credoau, dysgeidiaethau ac ymarferion crefyddol yn effeithio ar fywydau credinwyr, gyda isafswm yn dechrau rhoi enghreifftiau penodol o'r ffyrdd bydd credoau, dysgeidiaethau ac ymarferion crefyddol yn effeithio ar fywydau'r credinwyr.

Cofnodwyd bod mwyafrif o ddisgyblion yn gallu disgrifio ei deimladau, ei weithrediadau a'i barnau ei hun ac yn cynnig sylwadau syml ar safbwyntiau pobl eraill. Gwelir bod 25% o ddisgyblion yn dechrau esbonio mewn termau syml sut mae ei deimladau, ei weithrediadau a'i barnau ei hun yn wahanol i rai pobl eraill. Mae bron pawb yn dechrau cydnabod bod ystyr i symbolau crefyddol ac yn defnyddio rhywfaint o eirfa crefyddol yn addas gyda ychydig yn defnyddio ysod o eirfa crefyddol yn addas.

Ym mrig Cyfnod Allweddol 2 (blynydoedd 5 & 6) gwelir fod mwyafrif o'r disgyblion gan amlaf yn gallu mynegi a chyfiawnhau syniadau a barnau am gwestiynau sylfaenol yn ol ei ymchwiliadau a'i profiad eu hun, gyda ychydig iawn yn mynegi ac yn cyfiawnhau eu syniadau a'u barnau. Mae bron pawb yn disgrifio ac yn dechrau esbonio'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol a ymchwilir iddo.

Cofnodwyd bod ychydig iawn gan amlaf yn gwneud cysylltiadau rhwng credau, dysgeidiaethau ac arferion a astudir gan ddisgrifio'r effaith ar fywydau credinwyr.

Mae tua hanner y disgyblion yn gallu nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol o fewn ac ardraws y crefyddau. Mae isafswm o'r disgyblion yn gallu esbonio sut mae eu teimladau, ei gweithrediadau a'u barnau yn effeithio ar eu bywyd, ac yn disgrifio sut mae safbwynt pobl eraill yn yr u modd yn effeithio ar eu bywydau hwy.

Mae bron pawb bar frig Cyfnod Allweddol 2 yn defnyddio ystod o eirfa crefyddol yn addas ac mae tua hanner y disgyblion yn dechrau dangos dealltwriaeth sylfaenol o iaith symbolaidd.

**Materion i gael sylw:**
**CYFNOD SYLFAEN**
- Parhau i ddatblygu geirfa a gallu’r disgyblion i gwestiynu gan gynnig cyfleoedd iddynt fynegi barn erbyn brig y Cyfnod Sylfaen.
- Datblygu dealltwriaeth o effaith crefydd ar fywydau credinwyr erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen.

**CYFNOD ALLWEDDOL 2**
- Sicrhau fod y tasgau a ddarperir yn heriol ac yn rhoi cyfle i’r disgyblion ymchilio, i gwestiynu ac i ddarganfod dros eu hunain.

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?**

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau

**Y CYFNOD SYLFAEN**

- Mae athrawon y Cyfnod Sylfaen yn gyfarwydd â'r fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol. Maent wedi adnabod y sgiliau penodol sy'n ymwneud â phobl, credoau a chwestiynau drwy'r meysydd Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd a datblygiad Personol a Chymdeithasol Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol.
- Mae cynlluniau y Cyfnod Sylfaen ar sail yr ymwybyddiaeth uchod wedi ymgorffori pobl, credoau a chwestiynau o fewn y ddau faes yma ac ar draws y meysydd dysgu eraill.
- Mae'r gweithgareddau wedi eu cynllunio'n ofalus ar draws y Cyfnod Sylfaen ac yn dangos dilyniant o un dosbarth i'r llall o ganlyniad i gyd gynllunio a chyd drafod .
- Mae ystod eang o brofiadau yn cael eu cynnig i roi bob cyfle i'r disgyblion wneud cynnydd mewn gwybodaeth a dealltwriaeth a sgiliau trafod a rhesymu yn y maes.
- Mae adnoddau storïol, llyfrau gwybodaeth, llyfrau gwybodaeth, llyfrau mawr, arteffactau, adnoddau TGCh, ymweliadau/ymwelwyr i'r ysgol i gyd yn creu diddordeb ac yn cyfoethogi'r ddarpariaeth yn y maes.

Mae'r agweddau Crefyddol o fewn y meysydd yn cael eu darparu yn dda yn y Cyfnod Sylfaen

**CYFNOD ALLWEDDOL 2**

- Neilltuir sesiwn o o leiaf awr ar gyfer Addysg Grefyddol ardraws Cyfnod Allweddol 2. Addysgir y maes gan athrawes CPA o flwyddyn 3 i 6.
- Fel canlyniad i hyfforddiant eang, archebu adnoddau cyfoethog sydd yn dyfnhau ymhellach ddealltwriaeth yr athrawes o'r maes y mae'r ddarpariaeth yn dda iawn ar draws y cyfnod.
- Mae'r cynlluniau yn fanwl ac yn sicrhau dilyniant a datblygiad, mae rhoddi sylw i gwestiynau mawr wedi bod yn gyfrwng i sicrhau dyfnder a datblygu sgiliau ymholi y disgyblion.
- Mae dulliau asesu manwl yn gyfraniad gwerthfawr wrth ddarparu tasgau ar gyfer gwahanol alluoedd.
- Manteisir ar y cyfleoedd i fynd a'r plant allan ar ymweliadau a Addoldai

Mae ansawdd addysgu a'r ddarpariaeth yn Cyfnod Allweddol 2 yn gyson dda.

Materion i gael sylw:

**Y CYFNOD SYLFAEN**

- Parhau i gynnig ystod eang o brofiadau diddorol a gwerthfawr.
- Athrawon i barhau i gyd-drafod a bod yn ymwybodol o adnoddau newydd sydd ar gael e.e. mewn TGCh
- Parhau i annog y lant i ddatblygu sgiliau meddwl.
- Cynlluniau Blwyddyn 1 angen cynnwys cyfleoed i gymharu credoau.

**CYFNOD ALLWEDDOL 2**

- Parhau i ddatblygu tasgau heriol ac ymestynnol ar gyfer y disgyblion mwy galluog ymhob dosbarth.
- Defnyddio arbenigedd pobl o'r tu allan, y gymdeithas aml-ffydd, a Kirsty Williams, Eglwys yng Nghymru i weithio gyda'r disgyblion i'w cynorthwyo wrth ofyn cwestiynau mawr.

| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

# Addoli ar y Cyd

| **Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | |
|---|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** √ | **Nac ydy** |

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

Darperir Addoli ar y Cyd sydd yn dilyn traddodiad cyffredin y gred Gristnogol yn ddyddiol yn yr ysgol. Cynhelir yr Addoliad ar y cyd ar lefel dosbarth ac ysgol. Fe archwilir agweddau moesol, ysbrydol a chred tra ar yr un pryd yn meithrin ysbryd cymunedol a hyrwyddo ethos a gwerthoedd. Mae cyfleoedd hefyd drwy'r gynllun ABCh i fyfyrio ar gwestiynau mawr y byd, ac mae eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth o arferion a storiau Cristnogol yn dda. Croesawir dau ymwelydd i'r ysgol, y Rheithor a'r Gweinidog, ar gyfer cynnal gwasanaethau. Yn ogystal byddwn yn cymryd rhan mewn gwasanaethau yn yr Eglwys e.e. Christingle a'r Pasg.
y plant yn cael cyfle i wneud un neu sawl un o'r canlynol yn ystod yr Addoliad:

- Myfyrio sy'n cynnwys gwrando, gwylio neu fyfyrio ar ysgogiad, cyflwyniad neu sgwrs gan aelod o'r staff neu siaradwr gwadd.
- Gweddïo
- Canu
- Darllen
- Rhannu eu cyflwyniadau i weddill yr ysgol
- 

Ar y cyfan mae Addoli ar y Cyd yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Manteisir ar gyfleoedd i ddatblygu agweddau ar ABaCh, Dinasyddiaeth Fyd Eang a'r Cwricwlwm Cymreig fel rhan o'r Addoliad. Mae creu ethos sydd yn wahanol i ethos pob dydd yr ysgol yn digwydd mewn mwyafrif o'r sesiynau. Mae'r athrawon yn gyfrifol am wahanol wasanaethau yn eu tro.

Ar y cyfan mae'r ddarpariaeth yn dda.

| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: (Pennaeth)

Dyddiad:

This page is intentionally left blank

**Rhesymeg**

Rheolir Addysg Grefyddol yn lleol gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae'n cynnwys tri phwyllgor: cynrychiolwyr prif draddodiadau crefyddol yr ardal, cynrychiolwyr athrawon a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a)

Cred CYSAG Môn y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan obeithio y bydd y canllawiau sy'n dilyn yn galluogi penaethiaid i gefnogi CYSAG yn ei dyletswyddau.

Yn y gorffennol, mae CYSAG Môn wedi monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:
- adolygu adroddiadau arolygu ESTYN;
- dadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- cael adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ysgolion/ymgynghorol lleol;
- gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu enghreifftiau o arferion da gydag aelodau CYSAG.

Ni fydd Fframwaith Arolygu newydd ESTYN bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae CYSAG Môn felly yn awyddus i fanteisio ar y cyfundrefnau a'r arferion a ddefnyddir ar hyn o bryd gan benaethiaid ac athrawon wrth iddynt baratoi at y Fframwaith Arolygu newydd. Yng nghyfarfod CYSAG Môn ar Chwefror 14eg 2011, penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau.

Gofynnir yn garedig i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Môn yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol.

**Manylion cyswllt:**

**Enw (Clerc CYSAG): Jane Marr**

**Cyfeiriad: Addysg a Hamdden, Ffordd Glanhwfa, Llangefni.**

Ers 2008, mae CYSAGau ar draws Cymru wedi mabwysiadu neu addasu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (APADGOS, 2008) fel eu maes llafur cytûn lleol. Mae aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol wedi croesawu'r cysondeb hwn ar draws Cymru gan eu bod wedi gallu cydweithio i baratoi canllawiau cyffredin i ysgolion a ChYSAGau. Mae amryw o GYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu cyfundrefn neu broses debyg i'r un a amlinellir yn y ddogfen hon.

**Enw’r Ysgol:Pentraeth**

| Addysg Grefyddol |
|---|

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi,arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a’r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

**CS**

Mae’r disgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o wyliau crefyddol Cristnogion yn y CS sef Diolchgarwch, Y Nadolig a’r Pasg. Maen’t yn gallu trafod y Beibl ,Y Llyfr Sanctaidd, ac yn gallu adrodd straeon o'r Beibl. Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion yn gallu trafod y gwyliau yma mewn peth manylder. Gall y rhan fwyaf gyfrannu yn llafar i drafodaethau ar cwestiynau moesol e.e. Beth sy’n gwneud ffrind da ,Pam bod hi’n bwysig dweud y gwir a.y.b. Maent yn defnyddio’r llyfrau o’r gyfres ‘Tybed Pam?’ sef ‘Stori Ruben’, ‘Holi Hai’, ‘Gwneud y Pethau Bychain’ a ‘Planed Arbennig Harri’. Mae sesiynau amser cylch yn digwydd yn ddyddiol yn y dosbarth meithrin a derbyn ac yn wythnosol ym mlwyddyn 1 a 2. Mae’r plant yn ymateb yn dda gyda nifer fechan yn ymateb yn dda iawn. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o fannau addoli megis Y Capel a’r Eglwys yn ogystal ag arteffactau crefyddol cristnogion a Hindwaeth.

**CA2**

Mae’r disgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o fannau addoli,arteffactau a symbolau crefyddol Cristnogion, Iddewon ac Hindwiaiad. Maen’t yn cyfrannu yn dda i gwestiynau mawr megis:
Byd pwy ydy hwn?/Beth sy’n ein gwneud yn ddynol?/A oes Heddwch? / A oes rhaid Marw? a Beth sy’n Real?
Mae’r mwyafrif yn hyderus wrth drafod materion moesol a diwylliannol ac mae nifer fychan yn hyderus iawn ac yn ymateb yn dda iawn.

**Materion i gael sylw**

Gwneud mwy o ddefnydd o amser Cylch yn CA2

| Rhagorol | | Da | √ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i’r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a’r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a’u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth ‘Pobl, Credoau a Chwestiynau’ ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a’r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

Mae gan y cydlynydd newydd ddealltwriaeth dda o’r maes ac mae’r cynllunio yn cydymffurfio ar sail Pobol, Credoau a chwestiynau ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen a’r maes llafur cytûn yng Nghyfnod Allweddol 2. Buddsoddwyd mewn llyfrau ac adnoddau e.e Cyfres ‘Tybed Pam?’ ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.
Yn y CS mae’r disgyblion yn datblygu eu gwybodaeth sylfaenol o beth ydi Crefydd a Christnogaeth. Maent yn datblygu eu gwybodaeth o brif wyliau a dathliadau Cristnogion ac Iddewon. Gwneir defnydd o’r cyfres ‘Tybed Pam?’ gan ganolbwyntio ar y llyfrau ‘Holi Hai’, ‘Stori Ruben’ a ‘Gwnewch y Pethau Bychain’ yn bennaf. Gwneir defnydd o amser cylch er mwyn hyrwyddo xxxxx.
Yn CA2 mae’r disgyblion yn parahau i ddatblygu eu gwybodaeth o Gristnogaeth ,Iddewiaeth a Hindwiaeth wrth iddynt gymharu rhai o’u arferion a credoau. Wrth ailgynllunio yn thematig maer ysgol bellach yn dewis rhai themâu sy’n cael eu arwain gan un o gwestiynau mawr e.e. A oes Heddwch . Gwneir defnydd da o gwestiynau mawr er mwyn addysgu’r pwnc yn llwyddiannus.

Mae ABACH , Addysg Grefyddol A Dinasyddiaeth Byd Eang wedi eu plethu yn dynn drwy'r ysgol (mae 'r ysgol wedi llwyddo i ennill achrediad Cam 2 Ysgolion Rhyngwladaol. Rhoddir sylw haeddianol i ddatblygiad personol a chymdeithasol disgyblion yn ogystal a datblygiad ysbrydol a moesol drwy addysgu y tri maes .
Gwneir defnydd o amser cylch a Ffrindiau'n Gyntaf i ddatblygu disgyblion gyda'r ysgol bellach yn gobeithio ennill Cam 6 ysgolion iach.
Hyrwyddir parch at wahaniaeth a chydraddoldeb hiliol drwy'r maesydd uchod.

Mae yna gysylltiadau agos rhwng yr Eglwys leol â'r ysgol ac mae'r Parchechedig Gruff Jones yn ymweld ac yn cynnal gwasanaethau yn fisol.

**Materion i gael sylw**
Trefnu mwy o hyfforddiant i'r cydlynydd

| Rhagorol | | Da | √ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd? | | |
|---|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** √ | **Nac ydy** |

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

Mae sesiynau addoli ar y cyd yn digwydd 5 gwaith yr wythnos. Dwywaith fel ysgol gyfan dwywaith fel adran ac unwaith fel dosbarth unigol. (Gweler Amserlen) Gwneir defnydd helaeth o'r safwe beibl.net sy'n paratoi gwasanaethau ysbrydol ar gyfer y sector Gynradd a Uwchradd. Mae naws ysbrydol i'r gwasanaethau yn rheolaidd. Mae bron iawn pob un yn deall pwysicrwydd addoli ar y cyd ac yn trin y neuadd fel tŷ Duw yn ystod gwasanaethau. Goleuir cannwyll i ddynodi cychwyn a diwedd y gwasanaeth ac mae symbolau Cristnogol yn cael eu harddangos yn amlwg yn ystod gwasanaethau. Mae'r gwasanaethau yn adlewyrchu ethos Cristnogol yr ysgol.
Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol ,moesol a diwylliannol yn dda, rydym yn hyrwyddo gwerthoedd megis goddefgarwch, gonestrwydd a thegwch yn dda iawn ac mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd i fyfyrio ar fywydau eu hunain ac eraill yn rheolaidd. Drwy'r Cyngor ysgol a thrwy rhoi sylw i llais y plentyn mae disgyblion yn gwybod bod cyfrifoldeb yn dod law yn llaw â hawliau.

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

**Datblygu rôl/ llais y plentyn ymhellach mewn perthynas ac Addysg Grefyddol**

| Rhagorol | | Da | √ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: *Mari Evans* (Cydlynydd)

Dydddiad: 14/11/17

Lle mae CYSAG yn penodi Swyddog neu Aelod o Bwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAGau Cymru, rhaid i'r person hwnnw fod yn un o'r cynrychiolwyr y mae CYSAG yn ei benodi i'w gynrychioli yng nghyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru.

Cynnig:

Ychwanegu brawddeg newydd at baragraff 3(v) fel a ganlyn:

(v) Mae gan bob CYSAG sy'n aelod hawl i anfon hyd at bedwar o gynrychiolwyr, a all gynnwys cynrychiolaeth broffesiynol, i gyfarfodydd. Lle mae CYSAG yn penodi Swyddog neu Aelod o Bwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAGau Cymru, rhaid i'r person hwnnw fod yn un o'r cynrychiolwyr y mae CYSAG yn ei benodi i'w gynrychioli yng nghyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru. Mewn unrhyw gyfarfod lle bydd angen pleidleisio, bydd pob CYSAG â hawl i un bleidlais.

This page is intentionally left blank